OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 760

# Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018

## RHAN 3

### Gorfodaeth a Sancsiynau Sifil

**Pwerau mynediad ac archwilio etc.**

**9.**—(1) Y pwerau y caniateir awdurdodi swyddog gorfodaeth i'w harfer yw—

(a) mynd ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fangre (ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd) y mae gan y swyddog gorfodaeth reswm i gredu ei bod yn angenrheidiol i fynd iddi at ddiben awdurdodedig;

(b) pan fydd yn mynd i unrhyw fangre o dan is-baragraff (a)—

(i) mynd yng nghwmni swyddog gorfodaeth arall; a

(ii) dod ag unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau sy'n ofynnol at y diben awdurdodedig o dan sylw;

(c) wrth fynd i unrhyw fangre o dan is-baragraff (a)—

(i) arfer y pwerau yn rheoliad 8(2); a

(ii) cymryd unrhyw fesuriadau, tynnu unrhyw ffotograffau a gwneud unrhyw recordiadau y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben unrhyw archwiliad neu ymchwiliad o'r fath.

(d) o ran unrhyw fangreoedd y mae gan swyddog gorfodaeth y pŵer i fynd iddynt o dan is-baragraff (a), roi cyfarwyddyd bod rhaid gadael y mangreoedd hynny neu unrhyw ran ohonynt, neu unrhyw beth ynddynt, heb ymyrryd â hwy (pa un ai'n gyffredinol neu o ran agweddau penodol) am gyhyd ag sy'n rhesymol angenrheidiol at ddiben archwiliad neu ymchwiliad o dan is-baragraff (c);

(e) cymryd unrhyw samplau, neu beri i samplau gael eu cymryd, o unrhyw eitemau neu sylweddau a geir mewn neu ar unrhyw fangre y mae gan swyddog gorfodaeth y pŵer i fynd iddi o dan is-baragraff (a), a pheri i unrhyw eitemau neu sylweddau o'r fath gael eu dadansoddi neu eu profi;

(f) yn achos unrhyw sampl o'r fath, cymryd meddiant ohoni a'i chadw am gyhyd ag sy'n angenrheidiol at yr holl ddibenion a ganlyn, neu unrhyw un neu ragor ohonynt—

(i) ei harchwilio, a chynnal unrhyw broses neu brofion arni, neu beri iddi gael ei harchwilio;

(ii) sicrhau nad ymyrrir â'r sampl cyn cwblhau'r archwiliad;

(iii) sicrhau ei bod ar gael i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Ac eithrio mewn achos brys, pan fo swyddog gorfodaeth yn bwriadu mynd i unrhyw fangre a—

(a) bod mynediad wedi ei wrthod neu fod y swyddog gorfodaeth yn dirnad ar sail resymol bod mynediad yn debygol o gael ei wrthod, a

(b) bod y swyddog gorfodaeth yn dirnad ar sail resymol y gall y defnydd o rym rhesymol fod yn angenrheidiol i gael mynediad,

ni chaniateir mynd i'r mangreoedd hynny yn rhinwedd paragraff (1)(a) ond o dan awdurdod gwarant.

(3) Nid oes dim ym mharagraff (1)(c)(iii) yn gorfodi unrhyw berson i ddangos dogfen y byddai gan y person hwnnw hawl ar sail braint broffesiynol gyfreithiol i atal ei dangos o gael gorchymyn datgelu mewn achos yn y Llys Sirol neu yn yr Uchel Lys.

(4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth arfer y pwerau ym mharagraff (1) ond ar sail cred resymol bod trosedd o dan reoliad 3 wedi ei chyflawni neu'n cael ei chyflawni.

(5) Rhaid i swyddog gorfodaeth sy'n ceisio arfer pŵer o dan baragraff (1) ddangos tystiolaeth o bwy ydyw a thystiolaeth o'i awdurdod os gofynnir iddo gan berson sy'n, neu yr ymddengys ei fod yn—

(a) cyflenwr cynnyrch gofal personol i'w rinsio i ffwrdd neu gyflogai cyflenwr o'r fath;

(b) gweithgynhyrchwr cynnyrch gofal personol i'w rinsio i ffwrdd neu gyflogai gweithgynhyrchwr o'r fath; neu

(c) perchennog neu feddiannydd unrhyw fangre y mae'r swyddog gorfodaeth yn ceisio arfer y pŵer o dan sylw ynddi.